WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2018 – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1032A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. This document is also available in English.

Paratowyd yr adroddiad hwn i'r Archwilydd Cyffredinol gan Anne Beegan a Jeremy Saunders dan gyfarwyddyd Ann-Marie Harkin a Dave Thomas.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Yr adroddiad hwn 5

Negeseuon allweddol 6

Adroddiad manwl

Archwiliad o gyfrifon 7

Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar gywirdeb a phriodoldeb y gwaith o baratoi datganiadau ariannol 2017-18 y Bwrdd Iechyd 7

Rwyf wedi rhoi barn amodol ar reoleidd-dra'r datganiadau ariannol o fewn datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd a chyflwyno adroddiad o sylwedd ochr yn ochr â'm barn er mwyn tynnu sylw at ei fethiant i gyflawni ei ddyletswyddau ariannol statudol 8

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau 9

Er bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau llywodraethu da yn gyffredinol, mae'r Bwrdd wedi cydnabod bod lle i wella o hyd o ran trefniadau llywodraethu ansawdd a diogelwch, a bod angen ailystyried y strwythur trefniadol presennol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno ei strategaeth Newydd 10

Mae'r Bwrdd Iechyd i'w ganmol am ei ymgysylltiad a'i agwedd uchelgeisiol at gynllunio strategol tymor hwy ond mae angen iddo ddatblygu trefniadau cynllunio a chyflenwi cydgysylltiedig a symlach a sicrhau bod digon o allu i sicrhau bod y newid angenrheidiol yn digwydd 12

Mae gwaith o reoli'r gweithlu'n gwella, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cryfhau'r 13 trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol ac atebolrwydd, ond mae heriau ariannol sylweddol yn parhau, ac mae angen iddo fynd i'r afael â risgiau rheoli asedau a chynyddu ei ffocws ar wella effeithlonrwydd gwasanaethau 13

Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi rhai meysydd o arfer da achynnydd cadarnhaol wrth fynd i'r afael â materion blaenorol yr wyf wedi'u codi, ond mae heriau'n parhau ym maes gofal sylfaenol ac yn y trefniadau partneriaeth rhanbarthol, ac mae nifer o argymhellion heb eu cyflawni o'm gwaith blaenorol 15

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter Twyll Genedlaethol erbyn hyn i ganfod twyll a gordaliadau, er bod fy nhîm wedi gorfod atgoffa'r Bwrdd am y camau i'w cymryd 18

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 19

Atodiad 2 – ffi archwilio 20

Atodiad 3 – risgiau archwilio sylweddol 21

# Adroddiad cryno

## Yr adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r gwaith archwilio a wnaed gennyf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2018. Ymgymerais â'r gwaith hwnnw er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno'n ei gwneud yn ofynnol i mi:

a) archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;

b) bodloni fy hun bod y gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn berthnasol iddynt wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu; a

c) bodloni fy hun fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

2 Rwyf wedi adrodd ar fy nghanfyddiadau dan y penawdau canlynol:

- Negeseuon allweddol
- Archwiliad o gyfrifon
- Trefniadau i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau

3 Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r adroddiad archwilio blynyddol hwn yn grynodeb o'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn, ac fe'u rhestrir yn Atodiad 1.

4 Mae Atodiad 2 yn rhoi'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2018.

5 Mae Atodiad 3 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol sylweddol a amlygwyd gennyf yng Nghynllun Archwilio 2018 a sut yr aed i'r afael â hwy drwy'r archwiliad.

6 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn. Byddwn yn ei gyflwyno i'r Bwrdd ar 31 Ionawr. Anogwn y Bwrdd Iechyd i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru hefyd.

7 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod y gwaith archwilio a wnaed gan fy nhîm dros y 12 mis diwethaf.

# Negeseuon allweddol

## Archwiliad o gyfrifon

8 Rwyf wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol a'u bod yn gywir ym mhob ffordd berthnasol ac na wnaeth fy ngwaith ddatgelu unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd sy'n berthnasol i'm gwaith yn archwilio'r cyfrifon. Felly rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar y gwaith o'u paratoi a'u cywirdeb.

9 Ni wnaeth y Bwrdd Iechyd lwyddo i fantoli'r gyllideb am y cyfnod o dair blynedd yn diweddu ar 31 Mawrth 2018 ac felly rwyf wedi rhoi barn amodol ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yng nghyfrifon 2017-18.

10 Ochr yn ochr â'm barn archwilio, gosodais adroddiad o sylwedd ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd er mwyn tynnu sylw at ei fethiant i fantoli'r gyllideb a'i fethiant o ran cael cynllun tair blynedd cymeradwy yn ei le.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

11 Mae fy ngwaith asesu strwythuredig yn 2018 yn y Bwrdd Iechyd wedi canfod y canlynol:

- er bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau llywodraethu da yn gyffredinol, mae'r Bwrdd wedi cydnabod bod lle i wella o hyd o ran trefniadau llywodraethu ansawdd a diogelwch, a bod angen ailystyried y strwythur trefniadol presennol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno ei strategaeth newydd.
- mae'r Bwrdd Iechyd i'w ganmol am ei ymgysylltiad a'i agwedd uchelgeisiol at gynllunio strategol tymor hwy ond mae angen iddo ddatblygu trefniadau cynllunio a chyflenwi cydgysylltiedig a symlach a sicrhau bod digon o allu i sicrhau bod y newid angenrheidiol yn digwydd.
- mae gwaith rheoli'r gweithlu'n gwella, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cryfhau'r trefniadau ar gyfer rheoli ariannol ac atebolrwydd, ond mae heriau ariannol sylweddol yn parhau, ac mae angen iddo fynd i'r afael â risgiau rheoli asedau a chynyddu ei ffocws ar wella effeithlonrwydd gwasanaethau.

12 Mae fy adolygiad o wasanaethau gofal sylfaenol, gwasanaethau mamolaeth, nyrsio ardal, theatrau llawdriniaeth ac agweddau amrywiol ar lywodraethu gwybodaeth, yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth ranbarthol wedi datgelu rhai agweddau cadarnhaol o sicrhau defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau, ond mae heriau'n parhau, ac mae nifer o argymhellion blaenorol yn dal heb eu cyflawni.

13 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter Twyll Genedlaethol erbyn hyn i ganfod twyll a gordaliadau, er bod fy nhîm wedi gorfod atgoffa'r Bwrdd am y camau i'w cymryd i adolygu'r data cyfatebol a ryddhawyd yn 2017.

14 Ystyrir y canfyddiadau ymhellach yn yr adrannau canlynol.

# Adroddiad manwl

## Archwiliad o gyfrifon

15 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2017-18. Y datganiadau hyn yw'r ffordd y mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol a nodi ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod. Mae paratoi'r datganiadau'n elfen hanfodol o'r broses o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

16 Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant am y cyfnod dan sylw;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â gofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol;
- a yw'r wybodaeth arall a ddarparwyd gyda'r datganiadau ariannol (yr adroddiad blynyddol fel arfer) yn gyson â nhw; a
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol.

17 Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

## Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar gywirdeb a phriodoldeb y gwaith o baratoi datganiadau ariannol 2017-18 y Bwrdd Iechyd

### Rwyf wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol a'u bod yn gywir ym mhob ffordd berthnasol, ac na wnaeth fy ngwaith ddatgelu unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd sy'n berthnasol i'm gwaith yn archwilio'r cyfrifon

18 Mae gan y Bwrdd Iechyd bapurau gwaith o ansawdd uchel a phrosesau sicrhau ansawdd dros y datganiadau ariannol. Cefais wybodaeth mewn modd amserol gan staff parod eu cymorth ac ni chefais fy nghyfyngu yn fy ngwaith.

19 Adolygais y rheolaethau mewnol yr oeddwn yn eu hystyried yn berthnasol i'r archwiliad er mwyn fy helpu i adnabod, asesu ac ymateb i'r risgiau o gamddatganiad perthnasol yn y cyfrifon. Nid oeddwn yn eu hystyried at ddibenion mynegi barn ar effeithiolrwydd gweithredu rheolaeth fewnol. Ni ddatgelodd fy adolygiad unrhyw ddiffygion sylweddol yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd.

20 Mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy

Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y Bwrdd Iechyd ar 30 Mai 2018. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

### Arddangosyn 1: materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi ac yn darparu sylwadau ar y prif faterion a nodwyd.

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau nas cywirwyd | Dim |
| Camddatganiadau a gywirwyd | Roedd y diwygiadau i'r datganiadau ariannol yn rhai mân eu natur ac nid oedd unrhyw effaith ar wariant net y Bwrdd Iechyd |
| Materion pwysig eraill | Dim |

21 Fel rhan o'm harchwiliad ariannol, gwneuthum hefyd gynnal adolygiad o ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Deuthum i'r casgliad fod gwybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2018, a pharatowyd y ffurflen yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

22 Mae fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol cronfeydd elusennol y Cyngor wedi'i gwblhau ac rwy'n bwriadu rhoi barn ddiamod ar y cyfrifon.

## Rwyf wedi rhoi barn archwilio amodol ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol o fewn datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd a chyflwyno adroddiad o sylwedd ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ochr yn ochr â'm barn er mwyn tynnu sylw at ei fethiant i gyflawni ei ddyletswyddau ariannol statudol

### Ni wnaeth y Bwrdd Iechyd lwyddo i fantoli'r gyllideb am y cyfnod o dair blynedd yn diweddu ar 31 Mawrth 2018 ac felly rwyf wedi rhoi barn amodol ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol o fewn ei gyfrifon ar gyfer 2017-18

23 Mae'n rhaid i drafodion ariannol y Bwrdd Iechyd fod yn unol ag awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Rhaid iddo gael y pwerau i dderbyn yr incwm ac i wario'r gwariant sydd ganddo. Mae fy ngwaith yn adolygu'r pwerau hyn ac yn cynnal prawf i weld nad oes unrhyw elfennau perthnasol o incwm neu wariant nad oes gan y Bwrdd Iechyd y pwerau i'w dderbyn neu ei wario.

24 Lle nad yw Bwrdd Iechyd yn llwyddo i fantoli'r gyllideb, mae ei wariant yn fwy na'i bwerau i wario ac felly mae'n rhaid i mi roi barn amodol ar reoleidd-dra. Ar ddiwedd 2017-18, adroddodd y Bwrdd Iechyd ddiffyg ariannol o £69.6 miliwn, yn erbyn

cyfanswm diffyg cytunedig o £58.9 miliwn. Roedd diffyg cronnus cynyddol o un flwyddyn i'r llall yn £150 miliwn ar ddiwedd Mawrth 2018. Ar gyfer 2018-19, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yr heriau demograffig a graddfa y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu ac wedi dyrannu cyllid cylchol o £27 miliwn, gyda chyfanswm diffyg cytunedig o £35.5 miliwn ar gyfer y flwyddyn.

### Ochr yn ochr â'm barn archwilio, gosodais adroddiad o sylwedd ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd er mwyn tynnu sylw at ei fethiant i fantoli'r gyllideb a'i fethiant o ran cael cynllun tair blynedd cymeradwy yn ei le

25 Mae'r pŵer gennyf i roi adroddiad o sylwedd ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd ochr yn ochr â'm safbwyntiau lle rwyf am dynnu sylw at broblemau. Oherwydd methiant y Bwrdd Iechyd i gyflawni ei ddyletswyddau ariannol cyhoeddais adroddiad o sylwedd yn rhoi'r manylion ffeithiol: methodd yn ei ddyletswydd i fantoli'r gyllideb (fel y nodir uchod) ac ni lwyddodd i fodloni gofynion cynllun tair blynedd y gellid ei gymeradwyo a'i roi ar waith, yn lle hynny mae'n gweithio ar sail cynllun gweithredol blwyddyn.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

26 Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd Iechyd;
- adolygu dulliau'r Bwrdd Iechyd o ymdrin â chynllunio strategol;
- archwilio'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer rheoli cyllid, gweithlu, asedau a gwaith caffael y Bwrdd Iechyd;
- defnydd penodol o waith adnoddau ar wasanaethau gofal sylfaenol, gwasanaethau mamolaeth, nyrsio ardal, theatrau llawdriniaeth ac agweddau ar lywodraethu gwybodaeth, yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth rhanbarthol;
- adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio allanol; ac
- asesu'r defnydd o ymarferion paru data fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol.

27 Nodir fy nghasgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn yn y paragraffau canlynol.

## Er bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau llywodraethu da yn gyffredinol, mae'r Bwrdd wedi cydnabod bod lle i wella o hyd o ran trefniadau llywodraethu ansawdd a diogelwch, a bod angen ailystyried y strwythur trefniadol presennol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno ei strategaeth newydd

28 Archwiliodd fy ngwaith asesu strwythuredig drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd, y modd y mae'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau yn cynnal eu busnes, ac i ba raddau y mae strwythurau trefniadol yn cefnogi llywodraethu da ac atebolrwydd clir. Edrychais ar y wybodaeth y mae pwyllgorau'r Bwrdd a'r Bwrdd yn ei derbyn hefyd i'w helpu i oruchwylio a herio perfformiad a monitro'r gwaith o gyflawni amcanion y sefydliad. Gwelais y canlynol.

29 **Er bod trefniadau da i gefnogi effeithiolrwydd y bwrdd a'r pwyllgorau ar y cyfan, mae gwendidau yn ei drefniadau llywodraethu ansawdd a diogelwch, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cydnabod ac yn mynd i'r afael â nhw.** Canfu fy ngwaith bod y Bwrdd yn parhau i gael ei redeg yn dda yn gyffredinol gydag ansawdd da o graffu a herio ar lefel y Bwrdd. Mae yna gyflenwad llawn o aelodau annibynnol gyda rhaglen gynhwysfawr o ddatblygiad ar waith. Mae agendâu'r Bwrdd wedi'u strwythuro'n dda, gyda ffocws clir ar eitemau llywodraethu, materion strategol a pherfformiad, er bod angen mwy o waith i gael y lefel gywir o wybodaeth yn y papurau. Mae'r Bwrdd yn cylchdroi ei gyfarfodydd ac mae ganddo ffocws sy'n gwella ar ofal sylfaenol a chymunedol ond mae angen rhoi mwy o amser i ystyried ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Mae pwyllgorau'r Bwrdd yn gweithio'n dda ar y cyfan er bod cydnabyddiaeth bod angen i'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad (QSEAC) wella ymhellach. Cynhaliwyd gwaith i ailystyried a mireinio strwythurau cefnogi QSEAC, ond mae'r agendâu'n dal i fod yn hir, mae yna ddyblygu rhwng is-grwpiau, a byddai'n well ymdrin â llawer o'r materion a drafodir ar lefel weithredol. Bwriedir cynnal adolygiad pellach o'r strwythurau sy'n cefnogi'r QSEAC yn gynnar yn 2019.

30 **Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi'i ddatblygu'n dda ar waith sy'n cael ei adnewyddu wrth i amcanion strategol newydd gael eu datblygu.** Wrth adnewyddu ei Fframwaith Sicrwydd, daeth fy ngwaith i'r casgliad fod y Bwrdd Iechyd wedi datblygu Fframwaith Sicrwydd Corff Rheoleiddio ac Adolygu cynhwysfawr hefyd, a thros amser wedi cynyddu lefel y wybodaeth sydd yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, gan gynnwys archwaeth risg y Bwrdd. Mae Cofrestr Risg Gorfforaethol sy'n cynnwys cofnodion da ar waith hefyd, ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn gweithio i ymgorffori ei fframwaith rheoli risg diwygiedig ymhellach, yn dilyn pryderon a godais y llynedd.

31 **Mae rhai agweddau ar lywodraethu yn sefydlog ac wedi'u trefnu'n dda, ond mae angen datblygu eraill ymhellach, yn arbennig o ran trefniadau ansawdd a diogelwch.** Canfu fy ngwaith bod y Rheolau Sefydlog yn gyfoes, gyda Chynllun Dirprwyo rhyngweithiol cynhwysfawr wedi'i gymeradwyo'n ddiweddar, ac rwyf wedi ei nodi fel arfer da. Mae Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn gyfredol ac mae

trefniadau ar gyfer datgan buddiannau a rhoddion a lletygarwch yn gadarn. Mae rhaglen Archwilio Mewnol gynhwysfawr ar waith, ond mae'r gallu i gefnogi'r rhaglen Archwilio Clinigol yn broblem, gan arwain at rai archwiliadau heb fod wedi'u cynnal. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu Fframwaith Gwella Ansawdd newydd, ond mae'n dal i fod yn ei ddyddiau cynnar. Datblygwyd dangosfwrdd ansawdd a diogelwch lefel uchel ar gyfer QSEAC, ond nid oes adroddiad ar hyn wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd eto ac mae dangosfyrddau seiliedig ar gyfarwyddiaethau'n dal i gael eu datblygu. Mae perfformiad yn erbyn nifer o ddangosyddion ansawdd a diogelwch yn is na thargedau Llywodraeth Cymru, er bod dull y Bwrdd Iechyd o ymdrin â chwynion yn gwella. Mae adolygiadau perfformiad gweithredol cynhwysfawr ar waith erbyn hyn ym mhob un o'r cyfarwyddiaethau, er bod lle i ostwng nifer y cyfarfodydd a gynhelir. Mae'r dull o ymateb i'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yn rhagweithiol ond yn dibynnu ar sicrhau y bydd adnoddau ychwanegol ar gael.

32 **Mae angen ailystyried y strwythur trefniadol presennol i gefnogi uchelgais strategol, ac mae hyn wedi'i gydnabod gan y Bwrdd hefyd. Rwyf wedi tynnu sylw at bryderon am y strwythur sefydliadol eisoes.** Eleni, fe welais well cydweithio ar draws y tîm gweithredol, a gynorthwywyd gan ddatblygiad y fframwaith Adolygu Perfformiad Gweithredol newydd. Mae swyddogion gweithredol yn dechrau ymwneud yn fwy â materion gweithredol ac adolygiadau perfformiad, ond mae amlygrwydd yn dal i fod yn broblem. Tynnwyd sylw at amlygrwydd y tîm gweithredol yn yr arolwg staff diweddar gyda dim ond 45% o staff yn dweud eu bod yn gwybod pwy yw'r tîm gweithredol, er mai'r gyfran hon o staff oedd yr uchaf ar draws Cymru. Mae gwasanaethau sylfaenol a chymunedol wedi'u halinio'n well yn awr drwy'r strwythur Sirol, ond mae'r Bwrdd wedi cydnabod, os yw am gyflawni ei weledigaeth strategol, bod angen i wasanaethau sylfaenol a chymunedol fod yn llawer mwy amlwg yn strwythur y sefydliad. Er bod strwythur y sefydliad yn cael ei "arwain yn glinigol", nid yw rhai o'r arweinwyr meddygol yn ymwneud cymaint ag y gallent â'r gwaith o reoli gwasanaethau'n weithredol, yn bennaf oherwydd eu gallu cyfyngedig i gefnogi yn ogystal â diffyg cysondeb rhwng ymrwymiadau clinigol a phryd y cynhelir cyfarfodydd rheoli. Mae model partneriaeth fusnes wedi'i weithredu'n ddiweddar yn yr adran gyllid, ac mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i gyflwyno'r model ar draws gwasanaethau corfforaethol eraill, ac mae hynny'n cael ei groesawu gan y cyfarwyddiaethau gweithredol. Fodd bynnag mae diffyg gallu mewn rhai gwasanaethau'n golygu nad yw hyn yn bosibl eto.

33 **Mae gan y Bwrdd Iechyd broses gadarn ar gyfer olrhain argymhellion gan yr holl gyrff adolygu allanol, nid yn unig y rhai a nodwyd gan y gwasanaethau Archwilio Allanol a Mewnol, ac rwyf wedi nodi hynny fel arfer da.** Rhoddir adroddiadau rheolaidd ar y traciwr i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) ac mae swyddogion gweithredol yn cael eu dwyn i gyfrif am gyflymder y gwaith cyflawni, gydag adroddiadau diweddaru manwl ar gynnydd yn cael eu rhoi i ARAC yn rheolaidd. Fodd bynnag, gall cyflymder y gwaith cyflawni fod yn broblem, gyda phroses uwchgyfeirio ar gyfer argymhellion a weithredir yn hwyr neu rai heb eu cyflawni wedi'i rhoi ar waith yn ddiweddar, a fydd yn helpu i ganolbwyntio sylw ar

fynd i'r afael ag argymhellion. Mae fy ngwaith asesu strwythuredig eleni'n dangos bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd yn erbyn fy argymhellion blaenorol ond mae mwy o waith i'w wneud cyn i'r camau hyn gael eu cwblhau'n llawn. Yr wyf yn trafod hyn ymhellach ym mharagraff 47.

## Mae'r Bwrdd Iechyd i'w ganmol am ei ymgysylltiad a'i agwedd uchelgeisiol at gynllunio strategol tymor hwy ond mae angen iddo ddatblygu trefniadau cynllunio a chyflenwi cydgysylltiedig a symlach a sicrhau bod digon o allu i sicrhau bod y newid angenrheidiol yn digwydd

34 Edrychodd fy ngwaith ar y ffordd y mae'r Bwrdd yn ymgysylltu â phartneriaid ac yn pennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer y sefydliad. Asesais hefyd pa mor dda y mae'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio'r gwaith o gyflawni ei amcanion a sut mae'n monitro cynnydd wrth gyflawni'r cynlluniau. Nodir fy nghanfyddiadau isod.

35 **Mae'r gwaith ar ddulliau strategol a chynllunio partneriaethau hirdymor yn mynd rhagddo'n dda.** Canfu fy ngwaith bod y Bwrdd Iechyd wedi ymgymryd ag ymarfer ymgysylltu sylweddol, gydag arweinyddiaeth feddygol gref, i ddatblygu opsiynau ar gyfer ei wasanaethau gofal wedi'i drefnu a heb ei drefnu. Yn 2018, bu'n ymgynghori ar yr opsiynau arfaethedig. Ystyriwyd canlyniad yr ymgynghori yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi 2018, a chytunwyd ar yr opsiwn a ffefrir. Roedd hyn yn sail i Strategaeth Iechyd a Gofal ddeng mlynedd y Bwrdd Iechyd, a gymeradwywyd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n dda gyda'i bartneriaid ac ochr yn ochr â'r strategaeth, mae cynnydd da'n cael ei wneud hefyd ar y gwaith o ddatblygu gweledigaeth iechyd poblogaeth ugain mlynedd.

36 **Mae yna gynlluniau uchelgeisiol i ddatblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) ar gyfer 2019-22, ond nid yw'r broses gynllunio'n ddigon cydgysylltiedig.** Mae fy ngwaith wedi canfod mai bwriad y Bwrdd Iechyd yw cyflwyno ei IMTP cyntaf i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo ar gyfer 2019-22. Mae'r amserlen yn uchelgeisiol ond mae gwaith sylweddol ar y gweill i sicrhau bod yr IMTP drafft, sy'n rhan o'r strategaeth ddeng mlynedd, yn barod i'w hystyried gan y Bwrdd cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae mecanweithiau cynhwysfawr a chadarn wedi cael eu rhoi ar waith i ddatblygu'r cynllun tair blynedd, ond mae angen gwneud mwy er mwyn galluogi i gynlluniau'r cyfarwyddiaethau gael eu cydlynu â'i gilydd, ond mae capasiti cynllunio cyfyngedig y Bwrdd Iechyd yn llesteirio'i allu i wneud hyn mewn ffordd ragweithiol.

37 **Gellid cryfhau'r trefniadau ar gyfer monitro'r ddarpariaeth yn erbyn y cynllun, ac mae'r gallu i gyflwyno newid sylweddol yn her.** Mae trefniadau ar gyfer monitro'r ddarpariaeth yn erbyn y cynllun yn eu lle drwy'r Pwyllgor Cynllunio Busnes a Sicrhau Perfformiad (BPPAC) ond nid ydynt yn rhan ffurfiol o'r adolygiadau perfformiad gyda'r cyfarwyddiaethau ar hyn o bryd, ac eithrio o ran ystyried cynlluniau i fodloni cyflawniadau perfformiad allweddol erbyn diwedd y

flwyddyn. Mae'r gallu i gyflwyno newid strategol sylweddol wedi bod yn broblem i'r Bwrdd Iechyd. Mae rhaglenni trawsnewid blaenorol wedi dibynnu i raddau helaeth ar y timau gweithredol perthnasol i gyflwyno'r newid ar ben y busnes arferol, yn ogystal â bod cyllid cyfalaf a refeniw ychwanegol ar gael. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod y bydd angen capasiti ychwanegol arno os yw i gyflawni yn erbyn yr amserlen arfaethedig ar gyfer gweithredu ei Strategaeth Iechyd a Diogelwch. Mae cais am gapasiti ychwanegol wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'i drafod trwy gyfarfodydd y Tîm Gweithredol ar y Cyd ac Ymyriadau wedi'u Targedu, ond ar adeg y gwaith maes, nid oedd arian ar gael.

## Mae'r gwaith o reoli'r gweithlu'n gwella, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cryfhau'r trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol ac atebolrwydd, ond mae heriau ariannol sylweddol yn parhau, ac mae angen iddo fynd i'r afael â risgiau rheoli asedau a chynyddu ei ffocws ar wella effeithlonrwydd gwasanaethau

38 Edrychodd fy ngwaith asesu strwythuredig ar drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli ei weithlu, ei gyllid a'i asedau ffisegol eraill i ategu defnyddio adnoddau'n effeithlon, effeithiol a darbodus. Rwyf wedi ystyried y trefniadau ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau hefyd, a'r camau sy'n cael eu cymryd i wneud y gorau o effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Nodir fy nghanfyddiadau isod.

39 **Mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli ei weithlu'n effeithiol, ond mae swyddi gwag yn parhau i fod yn her ac mae angen rhoi cynllun dysgu a datblygu ar waith ar gyfer y gweithlu.** Darganfu fy ngwaith bod y Bwrdd Iechyd yn perfformio'n well na gweddill Cymru ar nifer o ddangosyddion gweithlu ond mae ganddo rai swyddi meddygol anodd eu llenwi o hyd ac mae'n dal i ddibynnu ar y defnydd o staff asiantaeth, er gwaethaf y costau hyn yn lleihau. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn rhagweithiol wrth weithredu nifer o fentrau ar gyfer y gweithlu ac mae'n defnyddio dull graddol i ymateb i ofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016. Mae rhaglen gynhwysfawr o ddatblygu sefydliadol yn ei lle, fodd bynnag, nodwyd bod dysgu a datblygu'n broblem yn arolwg staff diweddar y GIG, ac mae'n gwaith ni wedi canfod nad oes gan y Bwrdd Iechyd gynllun dysgu a datblygu ar draws y sefydliad i weld sut y gall ddatblygu ei staff yn fwy eang. Mae cynllun peilot yn cael ei gynnal ar hyn o bryd gydag un gyfarwyddiaeth er mwyn dechrau bwrw ymlaen â hyn, ond hyd yn hyn, eir i'r afael ag anghenion dysgu a datblygu ar lefel cyfarwyddiaeth yn bennaf ar sail bylchau tymor byr a gwerthusiadau perfformiad ac adolygiadau datblygu (PADR).

40 **Mae rheolaeth ariannol ac atebolrwydd wedi gwella, ond mae heriau sylweddol yn parhau.** Mae fy ngwaith wedi gweld, ar gyfer y flwyddyn 2017-18, bod y Bwrdd Iechyd wedi adrodd diffyg o £69.6 miliwn yn erbyn y terfyn adnoddau refeniw. Ar gyfer 2018-19, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yr heriau demograffig a gwledig y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu ac wedi dyrannu cyllid cylchol o £27 miliwn, gyda chyfanswm diffyg cytunedig o £35.5 miliwn ar gyfer y

flwyddyn. Rhagwelir y bydd y diffyg tair blynedd cronnus ar gyfer y cyfnod 2016-19 yn £154.7 miliwn. Ym mis naw, roedd y Bwrdd Iechyd yn dal i ragweld diffyg diwedd blwyddyn o £35.5 miliwn, gydag amrywiad niweidiol o £0.5 miliwn. Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau rheoli a rheolaeth ariannol digonol ond nid oes digon o atebolrwydd ariannol eto gan ei fod yn parhau i orwario. Dylai'r trefniant partneriaeth busnes cyllid newydd helpu i wella atebolrwydd a chyflawni ariannol ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae hyn ochr yn ochr â'r broses drawsnewid barhaus sydd wedi darparu trylwyredd mawr ei angen i gyflawni arbedion. Mae Pwyllgor Cyllid wedi'i sefydlu erbyn hyn fel is-bwyllgor o'r Bwrdd, dan gadeiryddiaeth Aelod Cyswllt profiadol. Mae'r pwyllgor yn darparu craffu a herio da ar y meysydd sy'n peri pryder sy'n achosi pwysau ariannol.

41 **Mae rhai metrigau perfformiad yn gwella, ond mae angen i'r Bwrdd Iechyd gynyddu ei ffocws ar wella effeithlonrwydd ac ymgorffori gofal iechyd seiliedig ar werth.** Mae fy ngwaith wedi canfod bod perfformiad cyffredinol yn erbyn nifer o fesurau effeithlonrwydd ers mis Ebrill yn parhau i fod yn gymysg, gyda gwelliannau cadarnhaol mewn cyfraddau achosion dydd a pherfformiad strôc er enghraifft, ond mae amseroedd aros gofal heb ei drefnu'n dirywio. Yn ystod y rhaglen drawsnewid, mae'r Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar effeithlonrwydd a chynhyrchiant gwasanaethau, ond mae hyn yn gyfyngedig i nifer fach o ffrydiau gwaith. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i fod yng nghamau cynnar mabwysiadu dulliau gofal iechyd seiliedig ar werth (VBH). Yn ddiweddar, mae cyllid dwy flynedd ar gael i ddatblygu seilwaith VBH ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Phrifysgol Abertawe. Fel rhan o'i Fframwaith Gwella Ansawdd sy'n datblygu, mae grŵp llywio gofal iechyd yn seiliedig ar werth wedi'i sefydlu'n ddiweddar, ond megis dechrau mae hwn. Fodd bynnag, mae Canolfan Arloesi wedi'i sefydlu drwy'r rhaglen ddatblygu sefydliadol i helpu i sbarduno'r agenda gwella.

42 **Mae asedau ffisegol y Bwrdd Iechyd yn dirywio, ac mae angen iddo asesu risg a blaenoriaethu camau i'w disodli.** Mae fy ngwaith wedi canfod bod gan y Bwrdd Iechyd ystâd a sylfaen asedau etifeddol fawr, ac er bod rhywfaint ohoni'n gymharol newydd neu wedi'i hadnewyddu'n ddiweddar, mae yna ôl-groniad sylweddol o waith cynnal a chadw o hyd. Er ei fod wedi'i leihau, mae ôl-groniad cynnal a chadw risg uchel yr ystad yn £59 miliwn ar hyn o bryd, ynghyd ag asedau y tu hwnt i'w bywyd sydd bellach yn gyfanswm o £53 miliwn arall. Mae rhai rhannau o'r ystad bresennol yn annhebygol o gefnogi modelau gwasanaeth newydd ac mae cyfyngiadau ariannol yn golygu hefyd ei bod yn anodd dod â chyfran o'r ystâd i'r safonau amgylcheddol gofynnol. Mae archwiliad ystadau cyfalaf yn cael ei gynnal ar hyn o bryd mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i ganfod i ba raddau y gellid addasu rhywfaint o stoc bresennol ystad y Bwrdd Iechyd at ddibenion gwahanol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi'r gofynion ystad sydd eu hangen yn y tymor byr a sut y bydd y rhain yn cael eu hariannu, ond ychydig o gyfalaf dewisol sydd ar gael. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos hyblygrwydd ac yn ymateb yn ôl yr angen i ddiwallu gofynion newydd, a gall hyn roi pwysau ariannol ar y gwasanaeth gyda'r adran ystadau wedi'i huwchgyfeirio yn y broses

drawsnewid ar hyn o bryd oherwydd ei hanallu i gyflawni yn erbyn ei tharged arbedion. Mae strategaeth ystadau i gefnogi'r strategaeth glinigol newydd yn cael ei drafftio ar hyn o bryd.

## Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi rhai meysydd o arfer da a chynnydd cadarnhaol wrth fynd i'r afael â materion blaenorol yr wyf wedi'u codi, ond mae heriau’n parhau ym maes gofal sylfaenol ac yn y trefniadau partneriaeth rhanbarthol, ac mae nifer o argymhellion heb eu cyflawni o'm gwaith blaenorol

### Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer gofal sylfaenol ac mae'n cymryd camau tuag at weithredu agweddau allweddol ar y weledigaeth genedlaethol. Fodd bynnag, mae pwysau ariannol yn ei gwneud hi'n anodd ailgyfeirio arian i ofal sylfaenol, mae heriau'n ymwneud â’r gweithlu’n bygwth cynaliadwyedd gwasanaethau ac mae lefelau perfformiad cenedlaethol yn waeth na gweddill Cymru ar y cyfan

43 Canfu fy ngwaith fod gan y Bwrdd Iechyd gynllun uchelgeisiol ar gyfer gofal sylfaenol sy'n cyd-fynd â'r cynllun cenedlaethol er bod lle i wella gwaith ymgynghori ac mae diffyg cynllunio ariannol manwl. Mae gan bob clwstwr gynlluniau sy'n cefnogi gweledigaeth y Bwrdd Iechyd, er bod aeddfedrwydd clystyrau’n amrywio, ac mae arweinwyr clystyrau wedi tynnu sylw at gwmpas i wella'r gefnogaeth a roddir iddynt gan y Bwrdd Iechyd.

44 Mae penderfynu ar y defnydd o adnoddau o fewn gwasanaethau gofal sylfaenol yn gymhleth o gofio natur amrywiol y gwasanaethau a ddarperir a'r gwahanol ffrydiau ariannu. O'r herwydd, nid yw'n bosibl asesu’n hawdd beth yw cyfanswm buddsoddiad mewn gofal sylfaenol. Gall y Bwrdd Iechyd nodi rhai enghreifftiau penodol o symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol ond nid yw wedi mesur cyfanswm yr adnoddau a symudwyd, ac mae anawsterau ariannol yn cymhlethu ymdrechion i ailgyfeirio arian i faes gofal sylfaenol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn monitro gwariant clwstwr yn agos ac er bod y rhan fwyaf o arweinwyr clwstwr yn teimlo eu bod wedi cael digon o annibyniaeth ariannol, roedd rhai’n teimlo bod lefel y monitro’n arafu’r broses o wneud penderfyniadau. Bu buddsoddiad cynyddol mewn grantiau gwella adeiladau gofal sylfaenol ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod yr angen am strategaeth ystadau gofal sylfaenol, a fydd yn rhan o'r Strategaeth Iechyd a Gofal.

45 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mapio ei weithlu gofal sylfaenol ac er bod bylchau yn y data, mae dadansoddiad yn awgrymu prinder o feddygon teulu a nyrsys, gweithlu sy'n heneiddio a chynnydd ym maint rhestri. Mae'r cynllun gweithlu gofal sylfaenol yn nodi gofynion staffio yn y dyfodol ym mhob ardal leol, ond mae angen diweddaru hyn i adlewyrchu'r Strategaeth Iechyd a Gofal newydd y Bwrdd Iechyd. Mae'r gyllideb ar gyfer yr Uned Cefnogi Gofal Sylfaenol wedi'i chynyddu ac mae nifer y meddygfeydd teulu a reolir yn uniongyrchol gan y Bwrdd Iechyd wedi

cynyddu o ddwy i dair. Mae cynnydd wedi'i wneud o ran gweithredu timau gofal sylfaenol aml-broffesiynol ond mae rhai rhwystrau'n atal eu datblygiad pellach gan gynnwys materion ariannu, oedi gyda phrosesau a gwerthusiad cyfyngedig o gynlluniau llwyddiannus.

46 Mae gan aelodau'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol brofiad o arwain gofal sylfaenol ac er bod proffil gofal sylfaenol wed codi, ar adeg y gwaith maes roedd yn cael ei weld fel blaenoriaeth is na gofal eilaidd ar draws y Bwrdd Iechyd. Adolygir perfformiad a risgiau gofal sylfaenol ar wahanol lefelau, ond mae diffyg data yn llesteirio'r gwaith o fonitro rhai agweddau allweddol ar ofal sylfaenol. Mae llawer o agweddau ar berfformiad gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd yn erbyn targedau cenedlaethol yn waeth na chyfartaledd Cymru. Mae meddygon teulu'n darparu arweinyddiaeth i'r rhan fwyaf o'r clystyrau a rhoddodd yr arweinwyr hyn safbwyntiau cadarnhaol am oruchwyliaeth y Bwrdd Iechyd, er bod pryderon ynghylch yr amser sydd ar gael i arwain y clystyrau.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael ag argymhellion o'm gwaith blaenorol, ond mae nifer yn dal i fod heb eu cyflawni, ac mae rhai ohonynt yn dibynnu ar ganllawiau cenedlaethol a gwelliannau mewn systemau TG

47 Canfu fy ngwaith fod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion o'm gwaith archwilio blaenorol. O'r argymhellion hynny oedd heb eu cyflawni ym mis Rhagfyr 2018, roedd 119 o gamau gweithredu wedi'u cwblhau, roedd 22 ar y gweill ac yn dilyn yr amserlen, a 38 yn hwyr.

48 Yn ystod y 12 mis diwethaf, rwyf wedi ymgymryd â gwaith archwilio dilynol manwl hefyd i asesu'r cynnydd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â phryderon ac argymhellion sy'n deillio o waith archwilio blaenorol ar feysydd gwasanaeth amrywiol. Crynhoir canfyddiadau'r gwaith dilynol hwn yn Arddangosyn 2.

Arddangosyn 2: cynnydd o ran gweithredu argymhellion archwilio mewn meysydd gwasanaeth penodol

| Maes gwaith dilynol | Casgliadau a phrif ganfyddiadau archwilio |
|---|---|
| Gwasanaethau mamolaeth | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynd i'r afael â'r heriau gweithredol a strategol yn ei wasanaeth mamolaeth i raddau helaeth, ac mae ganddo arweinyddiaeth gref bellach, er bod cyfraddau Toriad Cesaraidd yn uchel o hyd. |
| Nyrsio ardal | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ysgrifennu manyleb gwasanaeth glir ar gyfer ei wasanaeth nyrsio ardal ac mae ganddo ddealltwriaeth well o'r galw, defnydd a pherfformiad, er ei fod yn disgwyl am ganllawiau cenedlaethol cyn y gall fynd i'r afael â rhai materion yn llawn. |

| Maes gwaith dilynol | Casgliadau a phrif ganfyddiadau archwilio |
|---|---|
| Theatrau llawdriniaeth | Mae trefniadau rheoli'n gryfach, ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd wrth fonitro lefelau staffio a'r gymysgedd sgiliau, ond nid yw systemau TG theatrau yn addas i'r diben, felly mae'n anodd cael data gweithgaredd a pherfformiad defnyddiol. |
| Gwybodaeth Ddilynol Wrth Gefn, Adfer mewn Trychineb a Pharhad Busnes, ac Ansawdd Data | Yn hanesyddol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynd i'r afael â'r argymhellion yn araf, ond dros y 12 mis diwethaf, mae wedi gweithredu'r rhan fwyaf o'r argymhellion, ac mae gwaith ar y gweill i gwblhau'r gweddill. |

Mae fy nghanfyddiadau sy'n dod i'r amlwg ar y Gronfa Gofal Integredig yn dangos, er bod y Gronfa'n cael rhai effeithiau cadarnhaol, mae yna sawl her hefyd y mae angen i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol eu rheoli

49 Rwyf wedi cwblhau'r gwaith maes ar gyfer fy adolygiad o'r Gronfa Gofal Integredig traws-sector. Rwy'n bwriadu paratoi adroddiad cryno cenedlaethol yn fuan yn 2019, gan nodi fy nghanfyddiadau ar gyfer Cymru gyfan. Mae fy nhîm archwilio wedi cyflwyno canfyddiadau lleol Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Y negeseuon allweddol ar gyfer Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru yw:

- Mae'r Gronfa Gofal Integredig (y gronfa) wedi cael effaith gadarnhaol wrth ddod â sefydliadau at ei gilydd ar draws y Gorllewin ond mae lle i egluro a gwella'r cysylltiadau ymhellach rhwng y Bwrdd Partneriaeth a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn barhaus ac yn rheolaidd, ac i adolygu a oes yna gynrychiolaeth ddigonol o'r meysydd tai, ariannol a gofalwyr ar y Bwrdd Partneriaeth a'i is- grwpiau.
- Ar hyn o bryd mae defnydd rhanbarthol cyfyngedig o'r gronfa, gyda'r dyraniad yn cael ei ddosbarthu ymhellach i lefel sirol. Dyma fu'r trefniant ers cyflwyno'r gronfa, ond nid yw'r dyraniad sirol yn cael ei ystyried yn deg bob amser. Mae'r Bwrdd Partneriaeth yn cymryd camau i symud i ddull mwy rhanbarthol drwy fforwm y Gronfa Gofal Integredig, er bod yr aelodau'n cydnabod y bydd hyn yn cymryd amser i ymwreiddio. Oherwydd natur flynyddol y gronfa, mae'r rhanbarth yn cydnabod hefyd nad yw wedi defnyddio'r gronfa mewn ffordd strategol bob amser i ddatblygu gwasanaethau seiliedig ar angen, gyda chwmpas i gryfhau agweddau ar waith rheoli prosiect ar gyfer y prosiectau a gefnogir gan y gronfa.
- Mae'r penderfyniadau sy'n ymwneud â defnyddio'r gronfa yn cael eu dirprwyo i is-grwpiau'r Bwrdd Partneriaeth i raddau helaeth, ond mae angen gwella lefel y ddealltwriaeth o fewn sefydliadau partner o waith y bartneriaeth a'i his-grwpiau, gan gynnwys yr hyn y mae'r gronfa'n cael ei defnyddio ar ei gyfer a'i heffaith.

- Mae cytundeb cyffredinol bod y gronfa'n cefnogi'r prosiectau cywir ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddefnyddwyr gwasanaethau, ond fel Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol eraill ledled Cymru, ychydig iawn o brosiectau sy'n cael eu prif ffrydio i wasanaethau craidd. Mae'r rhanbarth yn ceisio dangos canlyniadau'n gliriach, trwy ddatblygu fframwaith canlyniadau rhanbarthol a fydd yn dechrau dwyn rhai dulliau cyffredin o fesur effaith ynghyd ar draws y tair sir, er bod hyn yn dal i fod megis dechrau.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter Twyll Genedlaethol erbyn hyn i ganfod twyll a gordaliadau, er bod fy nhîm wedi gorfod atgoffa'r Bwrdd am y camau i'w cymryd

50 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn ymarfer paru data bob dwy flynedd sy'n helpu i ganfod twyll a gordaliadau drwy baru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i adnabod hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae'n adnodd hynod effeithiol o ran canfod ac atal twyll a gordaliadau a helpu sefydliadau i gryfhau eu trefniadau gwrth-dwyll a llygredd.

51 Mae'r Bwrdd Iechyd yn derbyn y canlyniadau o ymarfer paru data 2016 yn Ionawr 2017, ond oherwydd trosiant staff yn y Tîm Atal Twyll Lleol ar y pryd, prin fu'r cynnydd a wnaed o ran adolygu'r data cyfatebol a argymhellwyd yn ystod 2017. Rhoddwyd cynlluniau ar waith i gwblhau'r gwaith yn gynnar yn 2018, ond dangosodd ein gwaith ym mis Tachwedd 2018 nad oedd y data cyfatebol wedi'i adolygu o hyd. Unwaith y cafodd y Bwrdd Iechyd ei atgoffa o'r angen i edrych ar y data cyfatebol, cymerwyd camau rhagweithiol gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac mae'r holl ddata cyfatebol risg uchel wedi'i adolygu bellach a gwaith archwilio priodol wedi'i gyflawni.

52 Ym mis Hydref 2018, cyflwynodd cyrff oedd yn cymryd rhan ddata ar gyfer yr ymarferiad paru data nesaf. Bydd canlyniadau'r ymarfer hwn ar gael yn gynnar yn 2019. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod cynllun gweithredu clir ar waith i adolygu'r data cyfatebol ar ôl ei gyhoeddi, er mwyn sicrhau ei fod yn gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter Twyll Genedlaethol mewn modd mwy amserol nag o'r blaen.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

Arddangosyn 3: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyflwynwyd i'r Bwrdd Iechyd yn 2018.

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Mehefin 2018 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2018 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Gwybodaeth Ddilynol Wrth Gefn, Adfer mewn Trychineb a Pharhad Busnes, ac Ansawdd Data – Asesiad o Gynnydd | Ebrill 2018 |
| Nyrsio Ardal – Asesiad o Gynnydd | Mehefin 2018 |
| Adolygiad o Theatrau Llawdriniaeth – Asesiad o Gynnydd | Awst 2018 |
| Gwasanaethau Mamolaeth – Asesiad o Gynnydd | Awst 2018 |
| Adolygiad o Wasanaethau Gofal Sylfaenol | Rhagfyr 2018 |
| Asesiad Strwythuredig 2018 | Ionawr 2019 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Cynllun Archwilio 2018 | Chwefror 2018 |

Arddangosyn 4: gwaith archwilio perfformiad sy'n dal i fod ar y gweill

Mae yna sawl archwiliad o berfformiad sy'n dal i fod ar y gweill yn y Bwrdd Iechyd. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda'r dyddiadau amcangyfrifedig ar gyfer cwblhau'r gwaith.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig |
|---|---|
| Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd Gweithredol | Chwefror 2019 |
| Adroddiad Dilynol Codi Clinigol | Mawrth 2019 |
| Adroddiad Dilynol Orthopaedeg | Medi 2019 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd Cynllun Archwilio 2018 ffi archwilio arfaethedig o £396,355 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar sail y ffaith bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd, yn cyd-fynd â'r ffi a nodir yn yr amlinelliad.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio ariannol sylweddol

### Arddangosyn 5: risgiau archwilio sylweddol

Mae fy Nghynllun Archwilio 2018 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol sylweddol ar gyfer 2018. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr ymdriniwyd â hwy fel rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau ym mhob endid ar hyn o bryd. Am nad oes modd rhagweld sut y gallai rheolaethau gael eu diystyru yn y fath fodd, ystyrir ei bod yn risg sylweddol [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd;<br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol nad oes a wnelont â busnes arferol. | Gwnaeth fy nhîm archwilio’r canlynol:<br>• profi dyddlyfrau perthnasol ac ni nodwyd unrhyw eitemau anarferol.<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu perthnasol ac aseswyd pob un yn rhesymol.<br>• ni nodwyd unrhyw drafodion nad oeddynt yn ymwneud â busnes arferol. |
| Ceir risg sylweddol y bydd y Bwrdd Iechyd yn methu â chyflawni ei alldro rhagolygol. Dangosodd y sefyllfa ym mis 9 fod diffyg o £52.8 miliwn hyd hynny yn ystod y flwyddyn a rhagwelwyd y byddai diffyg o £69.6 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn, ynghyd â'r alldro ar gyfer 2015-16 a 2016-17, yn rhagweld diffyg tair blynedd o £150.4 miliwn.<br>Pe bai'r Bwrdd Iechyd yn methu â chyrraedd ei ddyraniad refeniw, byddaf yn newid fy marn reoleiddiol yn un amodol | Bydd fy nhîm archwilio’n canolbwyntio ar brofi rhannau o'r datganiadau ariannol a allai fod yn unochrog. | Ni wnaeth profion fy nhîm archwilio ddangos unrhyw ragfarn yn y gwaith adrodd. |

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| ac efallai y byddaf yn dewis rhoi adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol yn esbonio'r methiant a'r amgylchiadau y digwyddodd ynddynt.<br>Gallai'r pwysau ariannol presennol ar y Bwrdd Iechyd gynyddu'r risg y gallai dyfarniadau ac amcangyfrifon rheolwyr fod yn unochrog mewn ymdrech i fodloni'r terfyn adnoddau. | | |
| Yn 2017-18, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ailbrisio ei dir a'i adeiladau fel rhan o'r rhaglen ailbrisio pum mlynedd. O gofio bod gwerth yr asedau hyn a gedwir gan y Bwrdd Iechyd tua £239 miliwn maent yn berthnasol i'r datganiadau ariannol. Yn ogystal, bydd y Prisiwr Dosbarth yn defnyddio dull prisio diwygiedig.<br>Mae perygl nad yw'r ailbrisio’n cael ei adlewyrchu'n gywir yn y datganiadau ariannol ac y gallai fod cam-ddatgan perthnasol yn y datganiadau ariannol. | Bydd fy nhîm archwilio’n archwilio’r gwaith ailbrisio tir ac adeiladau ac yn sicrhau'r driniaeth gyfrifyddu gywir. | Profodd fy nhîm archwilio’r ailbrisiadau tir ac adeiladau. Ni welwyd unrhyw gamddatganiadau perthnasol. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Text phone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru